

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD AR NOS LUN 29AIN O ORFFENNAF 2019 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Stan Williams, Philip Williams, Arwel Davies, Iwan Jones, Bari Evans a'r Clerc.

**1: YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Falmai Evans, Hywel Davies, Geraint Jones a'r Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch.

**2. DDATGAN DIDDORDEB.**

Dim yn codi.

**3. TRAFODAETH GYDA MR BEN WILCOX-JONES, UWCH BEIRIANNYDD – DIOGELWCH Y FFYRDD A THRAFNIDIAETH GYNALIADWY CYNGOR SIR DDINBYCH.**

Croesawodd y Cadeirydd Mr Ben Wilcox-Jones i'r cyfarfod i drafod cyflymder traffic trwy Bentre' Llanrhaeadr ar y A525 sydd yn poeni trigolion y pentre' oherwydd iechyd a diogelwch pobl sydd eisiau croesi'r A525 ac yn y blaen. Esboniwyd Mr Wilcox-Jones fod arolwg diweddar dros 15fed hyd 21ain o Fawrth 2019 yn dangos bod moduron yn teithio 34.6 filltir yr awr tuag at Rhuthun ac 37.3 filltir yr awr tuag at Ddinbych. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd Mr Wilcox-Jones i gael y fan camir ym Mhentre' Llanrhaeadr yn rheolaidd ac i gael arwyddion sydd yn fflachio yn hysbysu'r cyflymdra cyn gynted â phosib. Rhoddwyd y Cadeirydd deiseb i Mr Wilcox-Jones fel tyst fod pobl leol yn poeni am y cyflymdra moduron trwy'r pentre' ar y A525. Diolchwyd y Cadeirydd i'r Swyddog am fod yn bresennol yn y cyfarfod.

**4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.**

Cadarnhawyd cofnodion 24ain o Fehefin 2019 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

**5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.**

A. Derbyniwyd y Clerc cadarnhad fod Adran Gwasanaethau Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych wedi cychwyn rhoi adroddiad wythnosol i'r Clerc o'r sylwadau'r Swyddogion i'r ymholiadau'r Cyngor Cymuned. Yr unig atebion hyd yma gan y Swyddogion y Cyngor Sir yw:-

1. Mae'r tyllau ar y ffordd rhwng Llanrhaeadr a Prion wedi ei thrwsio erbyn hyn.
2. Mae'r tyllau yn y ffordd rhwng Peniel a Dinbych heibio Plas Capten wedi ei thrwsio. Mae'r holl ofynion Cyngor Cymuned i'r ymholiadau eraill ddim wedi cael ymateb Swyddogion y Cyngor Sir ac mi fydd y Clerc yn tynnu sylw amdanynt eto.

B. Derbyniwyd adroddiadau Swyddog Cynllunio a Chydymffurfio Cyngor Sir Ddinbych ar y canlynol:-

1. Mae'r perchennog y cae ar ffordd Ystrad i Brion wedi cael gorchymyn i gau'r mynediad newydd i'r cae gan nad oedd y perchennog wedi rhoi cais cynllunio am fynediad newydd.
2. Mae'r perchennog y garafán yn "Y Paddock", Saron wedi cael gorchymyn i symud y garafán ar ôl gwrthod y cais cynllunio ar y safle.

**6. SEDD WAG Y CYNGOR.**

Nid derbyniwyd y Clerc unrhyw gais o'r etholwyr y Gymuned i lenwi'r sedd wag ar y Cyngor ac mi fydd yn trefnu hysbyseb newydd o'r sedd wag y Cyngor i'w thrafod yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

## 7. CYLLID.

A. Datganiad Banc £12,473.00.

B. Penderfynwyd yr aelodau i dalu'r anfonebau canlynol:-

1. Cyngor Sir Ddinbych am dair cyfarfod y Cyngor rhwng Ionawr a Mehefin 2019 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr £45.00.
2. Capel Y Pentre' am ddau gyfarfod y Cyngor yn Ionawr a Mawrth 2019 £40.00.

## 8. CAIS CYNLLUNIO.

Cais 23/2019/0610: Dymchwel estyniad presennol, codi estyniad deulawr a chyntedd newydd, a throsi adeiladau allanol fel llety ychwanegol yn Ffrith Fedw, Prion – dim gwrthwynebiad.

## 9. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Reolwr Cynllunio Strategol a Thai Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn â'r Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2018-2033 - Ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth a Ffafrir Drafft. Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd fod yna dau safle newydd o dir o dan sylw yn Llanrhaeadr a chytunodd i ysgrifennu sylwadau'r Cyngor Cymuned i'w weld gan yr aelodau cyn guru'r ymlaen i'r Cyngor Sir Ddinbych.

B. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

## 10. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y materion canlynol:-

A: Tyllau yn y ffordd rhwng Peniel a Prion.

B. Glaswellt ar ochrau'r ffordd ddim wedi cael ei thorri ym mhentrefi'r gymuned yn ystod y flwyddyn 2019.

C. Glaswellt ar ochr y ffordd rhwng Llanrhaeadr ar Glŷn ddim wedi cael ei thorri yn ystod u flwyddyn 2019.

D. Lwmp yn y ffordd wrth y cwli wrth Rossa Fawr ar y ffordd rhwng Prion ac Ystrad.

E. Tyllau yn y ffordd heibio Tŷ Mawr, Prion.

F. Ffordd rhwng Capel Saron a Phentre' Saron eisiau ei thrwsio.

11. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Nos Lun 30ain o Fedi 2019 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.